

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid sef "Effeithiolrwydd cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru"

14 Chwefror 2013

Mae'n sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd er budd gorau busnesau, pobl a chymunedau Cymru yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru o ran rhoi'r Rhaglenni cyfredol ar waith ar gyfer 2007-2013 a datblygu'r cylch nesaf o raglenni ar gyfer 2014-2020.

Mae'r hinsawdd economaidd fyd-eang anodd a welwyd ers 2008 wedi arwain at amgylchiadau heriol ar gyfer rhoi'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol cyfredol ar waith. Cyn y dirwasgiad byd-eang, roedd Cymru wedi dechrau gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â rhai o'i heriau economaidd strwythurol hirsefydledig. Gwnaeth dau gylch blaenorol y buddsoddiadau Cronfeydd Strwythurol, yn cynnwys rhaglen Amcan 1 2000-2006 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyfraniad pwysig at lwyddiannau economaidd ac yn y farchnad lafur yn cynnwys lleihau'r bylchau hanesyddol rhwng Cymru a'r DU a oedd yn amlwg cyn datganoli.

Caiff darpar Raglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yng Nghymru eu datblygu mewn amgylchiadau economaidd gwahanol iawn a heriol ac ar adeg o hirlwm ariannol. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi ein Cronfeydd Ewropeaidd yn y dyfodol ar greu twf economaidd a swyddi i sicrhau'r effaith fwyaf ac i sicrhau effaith drawsnewidiol ar yr economi yng Nghymru.

Yn y cyd-destun hwn, roedd Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid a'i adroddiad terfynol ar effeithiolrwydd rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yn ymarfer defnyddiol i helpu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma, ond hefyd i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Dros gyfnod Ymchwiliad y Pwyllgor - a barodd ychydig dros flwyddyn - bûm yn dilyn yn frwd y papurau tystiolaeth a'r trafodaethau gan nifer o sefydliadau, prosiectau a phartneriaid, ac rwyf yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd gan dystion. Ynghyd â'r ffaith y bûm yn bresennol mewn sawl cyfarfod a'r Dystiolaeth Ysgrifenedig a ddarparwyd, mae'n amlwg bod nifer o themâu cyffredin wedi codi: effaith y Rhaglenni fel y mesurwyd gan GYC; a yw'r rhaglenni ar y trywydd cywir i gyflawni eu hamcanion; gwerth ychwanegol a chynaliadwyedd buddsoddiadau; prosesau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO); a phrosesau caffael prosiectau.

Cododd rhai sefydliadau a roddodd dystiolaeth faterion yn ymwneud â chymhlethdod y prosesau gwneud cais. Mae rhywfaint o'r cymhlethdod hwn yn anochel o ystyried natur rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (UE) ynghyd â'r realiti - fel y mae'r Pwyllgor ei hun wedi sylweddoli - ein bod yn buddsoddi symiau sylweddol o gyllid yr UE. Yn wir, yn aml, mae'r prosiectau hyn werth

sawl miliwn o bunnoedd, ac mae angen i ni sicrhau'r safonau uchaf o reolaeth ariannol wrth ddiogelu'r cyllid hwn a sicrhau gwerth am arian. Nid yw hyn yn golygu y dylid cael gormod o fiwrocratiaeth ddiangen, ond yn hytrach y dylid arfer diwydrwydd dyladwy priodol.

O ran materion a godwyd ynghylch cymhwyso deddfwriaeth gaffael yr UE a'r DU, ar y naill law, mae prosesau caffael yn ein helpu i sicrhau gwerth am arian ac yn cynnig cyfleoedd i sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector gael budd o gyllid yr UE. Er enghraifft, mae busnesau eisoes wedi ennill dros 1,200 o gcontractau gwerth bron i £500 miliwn. Wedi dweud hynny, rwyf yn cytuno bod angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus sicrhau gwell meistrolaeth wrth reoli'r broses gaffael ac mae adolygiad Llywodraeth Cymru o bolisi caffael y sector cyhoeddus, a gwblhawyd y llynedd, wedi bod o gymorth mewn perthynas â hyn.

Rwyf hefyd yn benderfynol y dylem symleiddio ein prosesau lle y bo'n bosibl. Gyda hyn mewn cof, ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddais adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer rhoi'r cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol ar waith. Mae'r adolygiad hwn gan Dr Grahame Guilford - aelod hirsefydledig o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan a Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd 2014-2020 - yn cynnwys ystyriaeth o brosesau ymgeisio a rheoli prosiectau WEFO a phrosesau rheoli i annog gwelliant parhaus. Mae'r adolygiad hefyd yn ystyried priodoldeb trefniadau llywodraethu ac adrodd presennol WEFO o ran cyflawni ei rôl fel Awdurdod Rheoli ac Ardystio ar gyfer Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a pha un a ddylid newid ei rôl i gynnwys cyfrifoldeb am hyrwyddo a hwyluso mynediad i amrywiaeth ehangach o gyfleoedd ariannu'r UE.

Rwyf yn falch bod cynnydd da yn cael ei wneud gyda'r adolygiad, sydd wedi cynnwys llawer o waith ymchwil a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid, ac edrychaf ymlaen at gael adroddiad terfynol Dr Guilford ar ddechrau mis Mawrth, y byddaf yn ei rannu. Yn y cyfamser, mae eisoes yn amlwg o'r trafodaethau a gafodd Dr Guilford a minnau y bydd rhywfaint o synergedd yn y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor a gan Dr Guilford. Yn benodol, yr angen am flaenoriaethu strategol ac economaidd mwy penodol wrth roi'r Cronfeydd ar waith, gyda phrosesau alinio ac integreiddio gwell ar draws yr ystod o gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru.

Er gwaethaf ein nodau cyffredin i rannu'r gwersi a ddysgwyd er budd gwelliant parhaus, mae'n siomedig nad ymddengys fod rhai o argymhellion y Pwyllgor yn cael eu hategu gan y dystiolaeth a gyflwynwyd nac yn adlewyrchu sylwadau a wnaed yng nghorff yr Adroddiad ei hun. Er enghraifft, nododd sawl tyst bod ein prosesau monitro a gwerthuso wedi gwella a thrwy fesur allbynnau a chanlyniadau byddwn mewn sefyllfa well i asesu effaith ein buddsoddiadau yn yr hirdymor.

Mae hefyd yn siomedig nad ymddengys i'r Pwyllgor roi llawer o sylw i safbwyntiau'r Comisiwn Ewropeaidd a'i rôl yn sefydlu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rhoi'r Cronfeydd Strwythurol ar waith. Er enghraifft, mae argymhellion

7, 8, 9 ac 11 yn honni bod mwy o hyblygrwydd ar gyfer WEFO fel Awdurdod Rheoli na'r hyn sy'n bodoli mewn gwirionedd, ond credaf fod angen cydbwysedd mwy ystyriol a phriodol rhwng cydymffurfiaeth â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd ac effeithlonrwydd gweithredol.

Mae tystiolaeth yr Adroddiad hyd yn oed yn fwy cythryblus o ystyried bod gan y Comisiwn Ewropeaidd barch mawr tuag at y ffordd rydym yn rheoli ac yn cyflwyno ein rhaglenni ac yn ein defnyddio fel esiampl yn aml i'w dilyn gan ranbarthau eraill yn yr UE. Tra roedd Ymchwiliad y Pwyllgor yn mynd rhagddo, cefais y pleser o fod yn gwmni i'r Comisiynydd Johannes Hahn (Comisiynydd Polisi Rhanbarthol Ewrop) yn ystod ei ymweliad cyntaf â Chymru (Ebrill 2012), lle rhoddodd ganmoliaeth uchel i'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid a chreodd y prosiectau yr ymwelodd â hwy argraff dda arno.

Nid yw'r Adroddiad yn llwyddo chwaith i gydnabod y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â materion gweithredol a ddaeth i'r amlwg yn ystod blynyddoedd cynnar y Rhaglenni a'r sefyllfa sy'n bodoli heddiw. Er enghraifft, mewn perthynas â chaffael, gwnaethom wrando ar ein noddwyr a gwella ein canllawiau yn 2010.

Nid yw'r Adroddiad yn cyfeirio at lwyddiannau'r rhaglenni o ran cyflwyno buddiannau gwirioneddol i fusnesau, pobl a chymunedau ledled Cymru, lle mae prosiectau'r UE wedi cynorthwyo bron 374,000 o gyfranogwyr, y mae 123,000 ohonynt wedi cael cymorth i ennill cymwysterau a 46,400 wedi cael help i gael gwaith. Hefyd, mae 16,400 o swyddi a bron 4,475 o fentrau wedi cael eu creu, a thros 10,000 o fentrau wedi cael cymorth.

Mae'r Adroddiad hefyd wedi methu â chydabod na fyddai rhai prosiectau yn cael eu rhoi ar ben ffordd heb gyllid yr UE, er gwaethaf unrhyw reoliadau neu brosesau. Roedd hyn yn glir o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Tidal Energy Ltd sy'n dangos na fyddai'r cwmni wedi gallu datblygu prosiect ynni'r llanw cyntaf Cymru heb arian yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud y defnydd gorau o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn y dyfodol er mwyn helpu i lywio amodau ar gyfer sicrhau twf economaidd deallus, cynaliadwy a chynhwysol yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi nodi ar sawl achlysur mai'r cyfnod 2014-2020 ddylai fod yr achlysur olaf lle dylai unrhyw ran o Gymru gymhwyso i gael y lefel uchaf o gymorth Cronfeydd Strwythurol, fel y mesurir gan CMC/GYC.

Felly, byddwn yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y broses weithredu a bydd yr Adroddiad hwn, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y broses o'i baratoi, yn ein helpu yn y broses honno. Rhannaf gyda'r Pwyllgor y dyhead i ddysgu gwersi o'r profiad o gyflawni Rhaglenni 2007-2013 a hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ymgymryd â'r gwaith hwn.

Isod, rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad.

Nodir Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Prif Argymhelliad

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adolygiad Llywodraeth Cymru o'r ffordd y caiff rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd eu rhoi ar waith ôl-2013 yn rhoi ystyriaeth annibynnol, llawn dychymyg a heb gyfyngiadau i rôl, cyfrifoldebau a strwythur WEFO i'r dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Ym mis Gorffennaf 2012, gofynnais i Dr Grahame Guilford gynnal adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer rhoi'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar waith ar ôl 2013. Fel yr amlinellir yng Nghylch Gorchwyl yr adolygiad, bydd Dr Guilford yn ystyried priodoldeb trefniadau llywodraethu ac adrodd presennol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) o ran cyflawni ei rôl fel Awdurdod Rheoli ac Awdurdod Ardystio ar gyfer Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ac yn ystyried pa un a ddylid newid rôl y sefydliad i gynnwys cyfrifoldeb am hyrwyddo a hwyluso mynediad i amrywiaeth ehangach o gyfleoedd ariannu'r Undeb Ewropeaidd (UE). Gwneir cynnydd da gyda gwaith ymchwil Dr Guilford a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid ac edrychaf ymlaen at gael ei adroddiad ar ddechrau mis Mawrth 2013.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n diffinio'i blaenoriaethau strategol ar gyfer y cylch ariannu nesaf ar ffurf glir a hygyrch ar y cyfle cyntaf posibl, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y gwaddol y mae am ei weld o'r gwariant.

Ymateb: Derbyn

Fel y cytunwyd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013 yn canolbwyntio ar nifer o Flaenoriaethau clir ac mae gan bob un gyfres o ddangosyddion a thargedau i helpu i annog perfformiad gan y prosiectau. Ymhlith y targedau hyn, nod y Rhaglenni yw creu 38,540 o swyddi newydd a 5,604 o fentrau newydd, helpu 31,000 o gyfranogwyr i mewn i waith a helpu 89,180 o unigolion i ennill cymwysterau.

Mae gan Raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) Flaenoriaethau ar wahân yn canolbwyntio ar adeiladu'r economi wybodaeth; gan ysgogi menter a datblygiad busnes, datblygu'r seilwaith ffisegol sy'n angenrheidiol i ddatblygu economi gystadleuol fodern, hyrwyddo twf busnes cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd a chynnig datrysiadau adfywio integredig i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu economïau lleol bywiog. Mae Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur ac ar wella sgiliau'r gweithlu er mwyn creu economi wybodaeth sgiliau uwch, gyda chyfraddau cyflogaeth uchel a gweithlu medrus a hyblyg ac mae ganddynt Flaenoriaethau ar wahân ar gyfer helpu pobl i mewn i waith a gwella sgiliau'r gweithlu.

Caiff pob gweithgarwch Rhaglen a phrosiect ei asesu ar gyfer gwaddol y gwariant fel rhan o broses arfarnu WEFO ond hefyd gwneir defnydd penodol o offerynnau peirianeg ariannol arloesol sy'n rhoi arian benthyca y gellir, ar ôl iddo gael ei ad-dalu, gael ei ailddyrannu i gynorthwyo prosiectau pellach. Er enghraifft, offerynnau fel JEREMIE (Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Busnesau Micro i Ganolig), sy'n darparu arian i ficrofusnesau a BBaChau a JESSICA (Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig), a ddefnyddir i roi Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio ar waith, gan roi cyfalaf cychwynnol i roi prosiectau adfywio mawr ar ben ffordd.

Paratowyd Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 gan ddefnyddio amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Swyddi a Thwf a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. Roedd y Rhaglenni drafft yn nodi'r blaenoriaethau strategol cyffredinol ar gyfer defnyddio'r cyllid yn unol â'r amcanion hynny. Fe'u paratowyd gan ymgynghori'n llawn ag adrannau polisi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys y trydydd sector a'r sector preifat.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, cyn y cylch ariannu nesaf, yn sefydlu mai WEFO fydd yn atebol am gyd-drefnu a chynnal trosolwg o'r holl brosiectau sy'n cael eu galluogi mewn rhanbarth gan Arian Ewropeaidd, gyda chyfrifoldeb i osgoi dyblygu gwasanaethau a'r canlyniadau tymor hir a fwriedir.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae hwn yn faes y mae'r Pwyllgor yn gywir i'w godi fel maes sy'n peri pryder. WEFO, fel yr Awdurdod Rheoli, a'r partneriaid, sy'n gyfrifol am sicrhau y cyflawnir prosiectau Cronfeydd Strwythurol yn effeithiol. Rhoddaf bwysigrwydd mawr ar sicrhau bod gwaith Cronfeydd Strwythurol (ERDF ac ESF), Cronfeydd Gweledig (EAFRD) a Physgodfeydd (EMFF) yn gweithio mewn synergedd ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl i bobl Cymru. Rwyf eisoes wedi sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o gynllunio a datblygu Cronfeydd yr UE ar gyfer y dyfodol yn benodol er mwyn sicrhau cyfatebolrwydd gwell yn y modd y cyflawnir gweithgarwch yn lleol ac er mwyn sicrhau bod cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn fwy hygyrch.

Mae'r rheoliadau drafft ar gyfer Rhaglenni 2014-2020 yn cynnig mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â hyn na'r rheini ar gyfer cyfnod 2007-2013 y Rhaglenni. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Cronfeydd Strwythurol, Gwledig a Physgodfeydd 2014-2020 ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn nodi dulliau o ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn i gefnogi proses o fabwysiadu dull integredig sydd â'r nod o leihau cymhlethdod ac o hwyluso buddsoddiad effeithiol mewn amrywiaeth o gyfleoedd twf. I gefnogi'r gwaith hwn ac i weithredu fel dull allweddol o weithio mewn partneriaeth, mae ein Fforwm

Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd (2014-2020), dan gadeiryddiaeth Mark Drakeford AC, sydd wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd dros y 18 mis diwethaf, yn rhoi cyngor strategol ar y gwaith o ddatblygu Cronfeydd Strwythurol, Gwledig a Physgodfeydd 2014-2020. Yn y cyfamser, mae'r Rhaglenni cyfredol (2007-2013) eisoes wedi mabwysiadu dull mwy strategol gyda llai o brosiectau, a phrosiectau mwy, sydd wedi arwain at lai o ddyblygu gweithgarwch o gymharu â Rhaglenni 2000-2006. Ymhellach, gyda phortffolio o brosiectau a arweinir yn bennaf gan y sector cyhoeddus - naill ai drwy brosiectau ar draws rhaglenni Llywodraeth Cymru neu brosiectau rhanbarthol cydweithredol a arweinir gan awdurdodau lleol - mae'r partneriaid hyn mewn sefyllfa dda i chwarae rôl fwy effeithiol yn y broses o gydgyssylltu'r ddarpariaeth yn lleol o dan Raglenni'r dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gwella'r gwaith o gasglu a dadansoddi data contract a chaffael fel bod modd cymryd trosolwg strategol ar lefel leol a rhanbarthol o'r prosiectau (a ariennir ag arian strwythurol Ewropeaidd) a gyflawnwyd ac o'r canlyniadau tymor hir a fwriadwyd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae WEFO yn dal data caffael a chontract ar gyfer Cronfeydd Strwythurol. Mae wedi casglu a choladu data (e.e. enw a math o sefydliad, cost ariannol gweithgarwch a gaffaelwyd ac ati) o gam cynnar y broses o roi'r Rhaglenni ar waith ac ar ddechrau 2011, ehangodd y lefel o wybodaeth sy'n ofynnol. Ers hynny, mae'n ofynnol i bob noddwr prosiect gipio a chyflwyno gwybodaeth am ymarferion caffael a gwblhawyd yn uniongyrchol drwy system TG Ar-lein WEFO.

Mae WEFO yn adrodd i Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan ar gaffael fel rhan o'i hadroddiadau rheolaidd ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn ar wefan WEFO. Yn ogystal, mae WEFO wedi rhoi rhagor o ddadansoddiadau i'r Pwyllgor ar lefel yr asiantau cyflenwi o Gymru a gaffaelwyd.

Mae WEFO yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r data hwn o dan y Rhaglenni yn y dyfodol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch yn lleol ac yn rhanbarthol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai rôl Pwyllgor Monitro'r Rhaglen gael ei chynnwys yn yr adolygiad o brosesau ymgeisio a rheoli WEFO sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru, i ystyried a yw'r Pwyllgor Monitro yn gweithredu i'w lawn botensial ar hyn o bryd fel ffrind beirniadol i WEFO.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Wrth gwrs, mae'n briodol wrth ystyried sut y gallwn ddefnyddio unrhyw gylch o Raglenni yn y dyfodol, i asesu rôl y strwythurau monitro hefyd. Felly, rwyf wedi gofyn i Dr Grahame Guilford ystyried rôl y Pwyllgor Monitro Rhaglenni fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae Dr Guilford mewn sefyllfa dda i wneud y gwaith hwn fel aelod o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod y caiff rôl y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ei diffinio gan Reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi'r tasgau y dylai Pwyllgor Monitro Rhaglenni eu cwblhau a'i gylch gorchwyl llawn. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i Bwyllgor fonitro'r rhaglenni, ond nid iddo fod yn rhan o'r gwaith o gymeradwyo neu fonitro prosiectau unigol.

Yn unol â'r Rheolau Trefn presennol, bydd aelodau'r Pwyllgor yn cytuno ar ba mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd (a gallant ddiwygio hynny), gan adlewyrchu swm busnes y Pwyllgor a ph'un a yw ar frys. Mae amllder presennol cyfarfodydd yn adlewyrchu cam datblygedig gweithrediad y rhaglenni a chafodd hyn ei drafod yn drylwyr gan y Pwyllgor a chytunwyd arno. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn ystyried cynnal cyfarfodydd ychwanegol pan fydd angen i fynd i'r afael â materion brys.

Bydd angen penodi aelodau newydd a datblygu strwythur aelodaeth newydd ar gyfer y Pwyllgor newydd. Yn unol â'r pwysigrwydd uchel a roddaf ar sicrhau cyfatebolrwydd rhwng Cronfeydd Strwythurol, Gwledig a Physgodfeydd, byddwn yn archwilio dull o gyflawni synergedd mewn perthynas â monitro. Gallai hyn gynnwys cyflwyno un Pwyllgor Monitro sy'n goruchwyllo holl gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd, gan adeiladu ar y defnydd o un Pwyllgor Monitro ar gyfer y Rhaglenni ERDF ac ESF o dan y cylch cyfredol. Caiff WEFO ei herio'n effeithiol ar lefel strategol a gall aelodau awgrymu eitemau agenda i'r Cadeirydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell, cyn y Cylch Ariannu Ewropeaidd nesaf, fod Llywodraeth Cymru'n adolygu'i phrosesau i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i WEFO am arian, gyda golwg ar sicrhau eu bod yn ddigon cadarn a bod unrhyw fiwrocratiaeth ddianghenraid yn cael ei dileu. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r adolygiad hwn gael ei gyflawni mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid priodol.

Ymateb: Derbyn

Ailgynlluniodd WEFO ei phroses ymgeisio ac arfarnu ar gyfer Rhaglenni 2007-2013, gan symud o ffurflen gais i broses datblygu ac arfarnu gydweithredol dau gam. Mae'r cam cyntaf, sef Datgan Diddordeb, yn ddangosiad cynnar o ddichonoldeb cynnig, gan ddileu'r angen i noddwyr wneud llawer o waith yn datblygu cynnig nad yw'n ymarferol. Caiff cynigion sy'n symud ymlaen i'r ail gam - y Cynllun Busnes - eu datblygu'n fanwl a'u hasesu'n ffurfiol gan WEFO. Caiff y broses hon ei chydgysylltu gan Swyddog Datblygu Prosiect WEFO,

sy'n cydweithio'n agos â noddwyr prosiect i roi canllawiau a chymorth yn ogystal â monitro cynnydd. Mae'r broses hon yn ategu dull WEFO o gefnogi llai o brosiectau cydweithredol sy'n fwy o faint ac yn fwy strategol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf, lle y bydd y rhan fwyaf o sefydliadau yn cael budd o Gronfeydd Strwythurol yn anuniongyrchol gan WEFO.

Er hyn, rwyf yn ymrwymedig i sicrhau gwelliant parhaus ac rwyf eisoes wedi gofyn i Dr Grahame Guilford ystyried y broses ymgeisio ac arfarnu fel rhan o'r adolygiad hwn.

Er mwyn llywio ei adolygiad, mae Dr Guilford wedi cwrdd ag amryw o randdeiliaid a phartneriaid o bob rhan o sbectwm y Cronfeydd Strwythurol, gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, addysg uwch a'r trydydd sector a'r sector preifat. Mae hefyd wedi cynnal adolygiad manwl o brosiectau "astudiaeth achos" penodol a'u hynt drwy'r broses ymgeisio ac arfarnu, ac mae wedi adolygu ystod o dystiolaeth, yn cynnwys data rheoli a pherfformiad WEFO ac adroddiadau gwerthuso ar Raglenni 2007-2013. I ategu'r gwaith hwn, mae Dr Guilford hefyd wedi cynnal dau ymarfer trafod agored i gael safbwyntiau pob parti sydd â diddordeb ar faterion allweddol a gwmpesir gan yr adolygiad hwn, yn cynnwys y broses ymgeisio ac arfarnu.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ei hadolygiad o brosesau ymgeisio a rheoli WEFO, ystyried sut mae modd lleihau'r anghysondebau yn y cyngor a roddir gan WEFO. Mae'r Pwyllgor yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys ystyried sut mae modd lleihau'r trosiant staff yn WEFO, a sut y gellir datblygu rhagor o arbenigwyr caffael o fewn WEFO, neu eu recriwtio i WEFO.

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Mae adolygiad Dr Grahame Guilford yn archwilio proses WEFO o lywodraethu a rheoli Cronfeydd Strwythurol ac mae ei Gylch Gorchwyl yn cynnwys adolygu cynllun prosesau ymgeisio, monitro ac adrodd cronfeydd yr UE, a'r modd y'i rhoddwyd ar waith.

Bydd yr adolygiad yn ystyried y camau a gymerwyd eisoes gan WEFO i fynd i'r afael â materion a godwyd gan noddwyr y prosiect ynghylch yr angen am arweiniad cliriach yn ystod camau cynnar y Rhaglenni presennol.

Hefyd, er mwyn sicrhau bod canllawiau WEFO yn adlewyrchu gwersi a ddysgwyd a datblygiadau rheoliadol y Comisiwn Ewropeaidd, cânt eu hadolygu'n rheolaidd gan Grŵp Cyflawni a Chydymffurfiaeth WEFO sy'n cynnwys rhanddeiliaid o'r trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus, sydd oll yn meddu ar wybodaeth ymarferol o gyllid yr UE.

Mae'r adolygiadau allweddol yn cynnwys canllawiau diwygiedig y Modelau Noddi a Chyflawni (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010) o ganlyniad i faterion a godwyd gan noddwyr y prosiect ynghylch yr angen am fwy o eglurder o ran y defnydd o brosesau caffael. Mae WEFO eisoes yn ystyried beth yw'r ffordd orau o atgyfnerthu ei harbenigedd mewn prosesau caffael ac mae wrthi'n cael trafodaethau gyda Gwerth Cymru ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

Gwellwyd prosesau mewnol eraill WEFO hefyd, yn cynnwys sianelu cyngor i noddwyr prosiect drwy un pwynt cyswllt, sy'n arwain at well cysondeb. Mae hefyd wedi gwella hyfforddiant mewnol i staff ar reoli prosiectau a rheolaeth ariannol ac mae'n gweithio ar welliannau o ran delio â phrosesau trosglwyddo gwaith a rheoli prosesau trosglwyddo gwybodaeth rhwng aelodau staff unigol neu dimau. Fel y nodwyd eisoes, mae WEFO wrthi'n cael trafodaethau gyda Gwerth Cymru ar y ffordd orau o wella'r modd y darperir cyngor caffael.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gwneud dadansoddiad manwl o gostau a buddion defnyddio caffael wrth roi'r cronfeydd strwythurol ar waith yng Nghymru, gan fesur y rhain lle mae hynny'n bosibl. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl wedyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad ar y casgliadau hyn.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi comisiynu adolygiad i sicrhau bod y broses gaffael yng Nghymru yn cael yr effaith fwyaf posibl; cyflwynwyd adroddiad llawn o Adolygiad McClelland ym mis Awst 2012. Gan ddefnyddio'r Adolygiad hwn, ac argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes sef "Influencing the Modernisation of European Procurement Policy", cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ Ddatganiad ar 6 Rhagfyr yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chaffael a sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'r gweithgarwch pwysig hwn.

Hefyd, mae WEFO yn cynnal ei hadolygiad ei hun o'r gofyniad ar gyfer caffael o fewn prosiectau unigol. Mae WEFO eisoes wedi cynnal adolygiad o'r defnydd o gaffael fel model cyflawni o fewn prosiectau ac wedi cyflwyno'r defnydd o grantiau cystadleuol yn 2010. Mae'n bwysig nodi y bydd achlysuron (yn dibynnu ar y gweithgarwch a gyflawnwyd a'r posibilrwydd o sicrhau Cymorth Gwladwriaethol), lle na ellir osgoi'r angen am broses gaffael wrth gyflawni prosiectau. Lle mae'n ofynnol dylai'r broses gaffael fod yn unol â chyfarwyddeb caffael yr UE 2004/18/EC a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n galluogi noddwyr prosiectau i ystyried rhychwant eang o opsiynau ariannu wrth bennu'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o gyflawni'u prosiect, gyda chymorth canllawiau priodol.

Ymateb: Gwrthod

Fel yr Awdurdod Rheoli, mae gan WEFO gyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r broses weithredu sy'n cynnwys yr angen i sicrhau'r defnydd o fodelau cyflawni cydsyniol wrth gyflawni prosiectau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae WEFO wedi adolygu ei dull gweithredu mewn perthynas â modelau cyflawni ar gyfer Rhaglenni 2007-2013 ac wedi cyhoeddi canllawiau pellach ar gaffael yn 2010 i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y mathau o fodelau a ddefnyddir wrth gyflawni prosiectau.

Mae WEFO hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod canllawiau effeithiol ac amserol ar gael a llunio cyngor ar y broses o gyflawni a rheoli prosiectau a gynorthwyr gan gronfeydd yn y dyfodol fel bod prosiectau yn cael eu rhoi ar ben ffordd ar ddechrau 2014.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n darparu mynediad uniongyrchol i noddwyr prosiectau o'r trydydd sector a'r sector preifat at arbenigwyr caffael priodol yn Gwerth Cymru neu unrhyw sefydliad priodol arall (a WEFO, ar adeg pan fydd ganddi arbenigwyr caffael).

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Fel y nodwyd yn flaenorol mae WEFO eisoes yn ystyried beth yw'r ffordd orau o atgyfnerthu ei harbenigedd mewn prosesau caffael ac mae wrthi'n cael trafodaethau gyda Gwerth Cymru ar y ffordd orau o gyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod cyngor gwell ar faterion caffael ar gael i bob noddwr prosiect.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n egluro sefyllfa Cymru, o'i chymharu â rhanbarthau eraill Ewrop, o ran ei llwyddiant yn denu'r sector preifat i ymwneud â defnyddio'r cronfeydd strwythurol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Gwnaed y sylw bod Cymru ail o'r brig mewn rhestr o wledydd Ewrop mewn perthynas ag ymgysylltu â'r sector preifat ym mis Medi 2011 ac ar sail swm yr arian cyfatebol o'r sector preifat ar gyfer Rhaglenni 2000-2006. Roedd yn seiliedig ar adborth hirsefydlog ar berfformiad Cymru yn y gorffennol a

roddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i WEFO. Yn amlwg, mae safleoedd Aelod-wladwriaethau / rhanbarthau'n newid yn barhaus, wrth i wariant ardystiedig barhau i gael ei gadarnhau gan Aelod-wladwriaethau i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae hefyd yn bwysig gwahaniaethu rhwng ymgysylltiad drwy brosiectau a arweinir gan y sector preifat ac ymgysylltiad drwy gynnwys y sector preifat, ac yn anad dim y buddiannau i fusnes o'r broses o gyflawni prosiectau Cronfeydd Strwythurol. Yng Nghymru, mae busnesau eisoes wedi sicrhau dros 1,222 o gontractau sydd werth £496.6 miliwn i gyflawni gweithgarwch prosiectau Cronfeydd Strwythurol gydag ymarferion caffael a gwblhawyd. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata caffael a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2013, o'r holl gontractau a ddyfarnwyd i'r sector preifat, dyfarnwyd dros 70% ohonynt i gwmnïau yng Nghymru neu i gwmnïau â phresenoldeb yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell, cyn y cylch nesaf o Arian Ewropeaidd, fod WEFO yn adolygu'i chanllawiau ynglŷn â gwaith noddwyr prosiectau yn monitro gwariant ariannol. Rhagwelwn y dylai hyn arwain at ddatblygu canllawiau penodol fel bod modd monitro gwariant ariannol prosiectau heb i hynny fod yn ormodol, ond ei fod ar yr un pryd yn briodol o drylwyr.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae WEFO eisoes yn adolygu ei holl ganllawiau cyn y cylch gwariant nesaf. Fodd bynnag, byddai'n anghywir codi disgwyliadau y bydd unrhyw newid sylweddol yn y gofynion monitro a chydymffurfio ar gyfer noddwyr prosiectau. Rhaid i WEFO weithio o fewn gofynion deddfwriaethol a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r rheoliadau hyn wedi'u pennu gan ystyried yr UE gyfan, nid dim ond Aelod-wladwriaethau lle ceir fframweithiau rheoli datblygedig. Yng Nghymru, mae gennym brosesau ar waith eisoes sy'n llai beichus nag y gallent fod - er enghraifft, y gofyniad arferol yn y rhan fwyaf o Aelod-wladwriaethau yw y dylid archwilio pob dogfen ategol ar gyfer pob cais cyn y gellir ei dalu. Mae'n bwysig ein bod hefyd yn cofio canlyniadau rheolaethau gwael. Mae gennym enw da mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Comisiwn Ewropeaidd - gan sicrhau cyfradd lwyddiant o 99% ar gyfartaledd ar draws y Rhaglenni yn 2011 a 2012, tra bod taliadau'r Comisiwn Ewropeaidd i ranbarthau eraill yn y DU wedi cael eu gwahardd mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd cyfraddau uchel o gamgymeriadau. Felly mae costau diffyg cydymffurfio yn uchel iawn i Gymru.

Ar gyfer y Rhaglenni yn y dyfodol, bydd WEFO yn ceisio sicrhau y cyflawnir cydbwysedd da rhwng mesurau rheoli a beichiau gweinyddol ac mae eisoes yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried a chyfleu prosesau effeithiol a materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth. Yn ddiweddar, mae WEFO hefyd wedi dechrau cynnal cyfarfodydd adolygu blynyddol gyda'r holl noddwyr (noddwyr arweiniol a chyd-noddwyr) mewn nawdd cydweithredol i nodi a

goresgyn unrhyw feichiau gweinyddol diangen a osodir gan noddwyr arweiniol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod WEFO'n gweithredu, yn y cylch ariannu nesaf, i alluogi cyflwyno arolwg o effaith gymdeithasol ac economaidd prosiectau sy'n cael eu galluogi gan y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd; ynghyd â dangosyddion ar lefel rhaglen i fesur effaith gymdeithasol ac economaidd prosiectau.

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Mae WEFO yn monitro gwariant ac allbwn rhaglenni a phrosiectau yn ofalus, ac yn gwerthuso effaith y rhaglenni - y mae pob un ohonynt yn hanfodol ar gyfer llwyddiant rhaglenni a sicrhau y caiff cronfeydd yr UE yr effaith fwyaf posibl. Gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd, mae WEFO wedi atgyfnerthu ei threfniadau monitro a gwerthuso ar lefel rhaglenni a phrosiectau ar gyfer y rhaglenni cyfredol, ac mae'n arwain arfer gorau ar draws yr UE.

Mae dangosyddion rhaglenni cyfredol wedi'u hagregu o ddangosyddion lefel blaenoriaeth, sy'n cipio data ar gyfer pob ymyriad ac yn galluogi prosesau monitro cynhwysfawr o berfformiad cyffredinol rhaglenni.

Mae WEFO yn rhoi eglurder ar y data y dylid ei gipio a sut i fonitro canlyniadau'n effeithiol i noddwyr mor gynnar â cham datblygu'r prosiect. Mae WEFO hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i noddwyr gynnal gwerthusiadau prosiectau, a gyhoeddir wedyn ar wefan WEFO.

Er mwyn cefnogi'r prosesau hyn, mae canllawiau a chyngor ar fonitro a gwerthuso, sy'n cynnwys gwybodaeth am ddiffiniadau dangosyddion, a sut i ddewis a defnyddio dangosyddion sy'n briodol i weithgarwch y prosiect, ar gael i noddwyr prosiectau. Mae cymorth hefyd ar gael yn ystod cylch oes y prosiect.

Mae'r Fframweithiau Strategol a gyhoeddwyd (sy'n arwain gweithrediad) yn cynnwys cyfres o gwestiynau gwerthuso y dylai prosiectau geisio eu hateb yn eu gwerthusiadau. Mae WEFO yn bwriadu cyfosod yr ymatebion i'r cwestiynau hyn fel rhan o'i chyfres o werthusiadau lefel Rhaglenni gan ddechrau pan fydd mäs critigol o adroddiadau wedi'u derbyn. Gan fod y cwestiynau hyn yn ymwneud â chanlyniadau (effaith) a gyflawnir tuag at ddiwedd cylch oes y prosiect, ni fydd y gwaith hwn yn dechrau tan yn ddiweddarach yn 2013 / dechrau 2014.

Mae'n anochel bod modelau a dulliau ymchwil gwahanol ar gael i asesu perfformiad prosiectau a rhaglenni yn y meysydd pwysicaf wrth sicrhau swyddi, sgiliau a thwf. Mae'r holl weithgarwch ymchwil, dadansoddi a gwerthuso a gynhelir gan WEFO o safon broffesiynol uchel ac mae'r dulliau a

ddefnyddiwyd wedi'u sefydlu ar y cyd â Phwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan ac arbenigwyr technegol partneriaethau eraill.

Ar gyfer y rhaglenni cyfredol, mae WEF0 yn defnyddio dull cymysg o werthuso effaith, gan arloesi technegau mwy trwyadl sy'n cynnwys amcangyfrif yr hyn y gallai fod wedi digwydd heb yr ymyriad a ariannwyd gan yr UE (h.y. sefyllfa wrthffeithiol) i gael canlyniadau mwy soffistigedig a chytbwys. Mae'r dull hwn wedi'i gymhwyso i astudiaethau gwerthuso amrywiol sy'n ymwneud ag ariannu gan gynnwys tri arolwg ar raddfa fawr o unigolion sydd wedi cael budd o gymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac arolwg o fusnesau sydd wedi cael budd o gymorth ERDF. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am effeithiolrwydd cyffredinol cymorth Cronfeydd Strwythurol i unigolion a busnesau, mae setiau data'r arolygon hefyd wedi'u defnyddio mewn gwerthusiadau lefel prosiectau.

Ar ochr Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan ddefnyddio data Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth, mae WEF0 wedi gallu cymharu'r graddau y mae'r rheini sy'n cyfranogi ac nad ydynt yn cyfranogi yng Nghronfa Gymdeithasol Ewrop yn symud i mewn i waith dros gyfnod o 12 mis. Ar ochr ERDF, mae'r math hwn o ddadansoddiad wedi cael ei atal gan brydlondeb setiau data sydd ar gael yn genedlaethol. O ganlyniad, bydd WEF0 yn cynnal arolwg yn ddiweddarach eleni i sefydlu effaith cyllid ERDF ar ddechrau cyfnod y Rhaglen.

Bydd WEF0 yn parhau i adeiladu ar wersi a ddysgwyd o ran casglu a dadansoddi data yng nghyd-destun datblygu'r Rhaglenni yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod WEF0 yn y cylch ariannu nesaf yn cyhoeddi data cynnyrch a chanlyniadau am brosiectau byw, a bod y data ar gael i'r cyhoedd.

Ymateb: Derbyn

Mae rheoliadau cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion sylfaenol prosiectau a gymeradwywyd gael eu cyhoeddi (e.e. enw'r prosiect, y sefydliad a swm cyllid yr Undeb Ewropeaidd a ddyfarnwyd), ac mae WEF0 eisoes wedi rhagori ar ofynion y Comisiwn Ewropeaidd drwy gyhoeddi allbynnau a ragwelwyd o brosiectau ac allbynnau gwirioneddol ar ddiwedd prosiectau. Caiff mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer y Rhaglenni yn y dyfodol eu hadolygu gan WEF0 dros y flwyddyn er mwyn ystyried rheoliadau newydd y Comisiwn Ewropeaidd a'r arfer gorau o ran bod yn dryloyw; bydd hyn yn cynnwys datblygu cronfa ddata gymeradwy newydd ar gyfer prosiectau, yn cynnwys gwybodaeth am allbwn, ar gyfer prosiectau Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu i alluogi gwerthuso priodol ar brosiectau yn ystod eu hoes.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae eisoes yn ofynnol i'r holl brosiectau a gynorthwyir gan Raglenni 2007-2013 yng Nghymru gynnal gwerthusiadau annibynnol o'u prosiectau, a gyhoeddir ar wefan WEFO. Cynhelir gwerthusiadau o brosiectau fel arfer tuag at ddiwedd cylch oes prosiect i ganiatáu i asesiad effaith llawn gael ei gynnal.

Mae'n ofynnol i bob prosiect gytuno ar gynllun monitro a gwerthuso fel rhan o'r broses ymgeisio ac arfarnu ar gyfer arian yr UE. Ac mae angen i brosiectau sy'n arloesol iawn eu natur, neu sydd o faint neu gymhlethdod penodol gynnal gwerthusiad canol tymor. Hefyd, mae WEFO yn rhoi cymorth gwerthusiad technegol i brosiectau pan fydd angen.

Bydd WEFO yn cyfuno gwerthusiadau prosiectau tuag at ddiwedd 2013 a fydd yn amlygu'r arfer gorau a geir mewn prosiectau.

Mae hwn yn faes sy'n cael ei ystyried gan adolygiad Dr Grahame Guilford.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu ei chanllawiau cyfredol ar gymhwyso Erthygl 55. Mae'r Pwyllgor yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys ystyried mecanweithiau amgen i ddarparu arian Ewropeaidd i brosiectau, megis grantiau taprog, gyda golwg ar annog cynhyrchu elw yn y tymor hir lle mae hynny'n briodol.

Ymateb: Gwrthod

Caiff y rheolau ar gyfer prosiectau sy'n creu incwm a'r egwyddor 'dim elw' eu pennu gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, heb unrhyw ryddid i fod yn hyblyg mewn dehongliadau a gaiff eu dirprwyo i Aelod-wladwriaethau neu ranbarthau. Mae grantiau Cronfeydd Strwythurol yn cyfrannu tuag at gostau net prosiect ac ni allant gael yr effaith o gynhyrchu elw ar gyfer y sawl sy'n derbyn y grant.

Mae gan WEFO rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu'r sawl sy'n derbyn grantiau i ddeall eu rhwymedigaethau o ran cydymffurfio. Bydd WEFO yn ailedrych ar ei chanllawiau i weld a ellir gwella eu heglurder, tra'n cadw'r cynnwys technegol angenrheidiol ynghylch rheolau a diffiniadau'r Comisiwn Ewropeaidd.

Caiff Erthygl 55 (deddfwriaeth y Comisiwn Ewropeaidd 2007-2013) ei disodli gan reolau newydd ar gyfer Rhaglenni 2014-2020. Mae'r rheolau hyn yn destun trafod o hyd ond disgwylir iddynt gael eu terfynu yn 2013. Er y disgwylir i egwyddorion sylfaenol 'dim elw' a thriniaeth incwm aros fel y maent, mae WEFO yn croesawu'r camau symleiddio a gyflwynir yn y cynigion drafft.

Bydd WEFO yn llunio canllawiau diwygiedig maes o law i egluro'r rheolau diwygiedig i ddarpar ymgeiswyr am grantiau i gynorthwyo prosiectau o 2014 ymlaen.

Mae WEFO eisoes wedi sefydlu Ffrwd Gwaith Cyflawni a Chydymffurfiaeth Ôl-2013 i ymgysylltu â phartneriaid allweddol ar y broses o gynllunio modelau cyflenwi, nodiadau canllaw, rheolau cymhwysedd, a threfniadau gweithredu eraill. Yn ddiweddarach yn 2013 bydd y grŵp yn archwilio canllawiau modelau cyflawni a nawdd drafft WEFO o ystyried yr argymhellion a wnaed gan Dr Grahame Guilford yn ei adolygiad. Caiff yr aelodau y cyfle i awgrymu ffyrdd arloesol eraill o wella cynaliadwyedd prosiectau tra'n cydymffurfio â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd o hyd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Alun Davies AC

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd